# WYNNE, SARAH EDITH ('Eos Cymru '; 1842 - 1897), y Gymraes gyntaf i ddod i sylw'r byd fel cantores



**Enw:** Sarah Edith Wynne
**Ffugenw:** Eos Cymru
**Dyddiad geni:** 1842
**Dyddiad marw:** 1897
**Priod:** Aviet Agabeg
**Rhiant:** Harriet Wynne
**Rhiant:** Robert Wynne
**Rhyw:** Benyw
**Galwedigaeth:** y Gymraes gyntaf i ddod i sylw'r byd fel cantores
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yn Panton Place, Holywell, Sir y Fflint, 11 Mawrth 1842, merch Robert a Harriet Wynne. (Ei henw yng nghofrestr y genedigaethau ydyw Sarah Wynne.) Amlygodd dalent arbennig fel cantores yn blentyn, ac ymunodd â chymdeithas gorawl Treffynnon yn 9 oed, a chanai mewn cyngherddau. Yn 12 oed aeth am daith trwy Gymru gyda Hulse, Bangor, a chanai alawon Cymreig yn y cyngherddau gyda chymeradwyaeth mawr. Yn 14 oed aeth i Lerpwl am addysg gerddorol at Mrs. Scarisbrook, ac arhosodd am bum mlynedd a hanner yno. Gwnaeth ei hymddangosiad cyntaf fel cantores soprano yn Llundain yng nghyngerdd blynyddol Ellis Roberts ('Eos Meirion'), Mehefin 1862, a'r mis dilynol yn nau gyngerdd ' Pencerdd Gwalia ' - y cyntaf, yn y James's Hall, a'r ail yn y Palas Grisial. Ymsefydlodd yn y brifddinas a daeth yn un o gantoresau gorau'r wlad. Canodd yn 1862 yn eisteddfod genedlaethol Caernarfon, ac am wyth wythnos yn 1864 cymerodd ran ' Lady Mortimer ' yn *Henry IV* yn Drury Lane Theatre. Bu ar deithiau cerddorol yn 1863-5 gyda Madam Patey, Santley, ac Edward Lloyd, ac yn 1871 cafodd daith gerddorol lwyddiannus yn yr America. Bu am gwrs o addysg yn yr Eidal (e.e. yn Fflorens) o dan Romani a Vanncini. Cymerodd ran yng ngwyliau cerddorol y Plas Grisial, a'r Tri Chôr, a chanai ym mhrif gyngherddau y deyrnas. Yn 1874 anrhegwyd hi gan y ' London Welsh Choral Union ' â phen pres o waith y cerflunydd Cymreig, Joseph Edwards. Priododd, 1875, ag Aviet Agabeg, Armeniad, a bargyfreithwr. Yr oedd Kate Wynn-Mathuson yn chwaer iddi, ac yn gantores boblogaidd, a Llew Wynne, ysgrifennydd y ' Welsh Choral Union,' Lerpwl, yn frawd iddi (gweler *Cerddor*, Mai 1912). Gwnaeth ei hymddangosiad diwethaf yn James's Hall, 1874. Bu farw 24 Ionawr, 1897 a chladdwyd hi ym mynwent Hampstead, Llundain.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau

*Y Cerddor*, Ebrill 1897

*Notable Welsh Musicians* (1896)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908) (dan 'Wynne, Edith')

*Y Geninen*, 1897, 137, 195, 271

*British Musical Biography: a dictionary of musical artists, authors and composers, born in Britain and its colonies* (Birmingham 1897) (Brown a Stratton)

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Sarah Edith Wynne

## Delweddau

Madame Edith Wynne

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: Dr J. Lloyd Williams Music MSS and Papers MT4/5: Photographs of Joseph Parry, Edith Wynne and three unidentified individuals

VIAF: 51353562

Wikidata: Q7422270

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu